



Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc /
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / Tel: 01248 752901

Gofynnwch am / Ask for:
Ffôn / Tel: 01248 752
E-bost / E-mail:

Ein Cyf / Our ref:
Eich Cyf / Your Ref:

SWYDDOGOL SENSITIF / OFFICIAL
SENSITIVE

20.3.20

Mae angen i ni gyd wneud popeth yn ein gallu i leihau lledaeniad y firws COVID-19 ymysg trigolion yr Ynys a chymunedau.

Caiff y trefniadau yn y llythyr hwn eu monitro a'u diwygio fel y bydd amgylchiadau'n datblygu, sydd, fel y gwerthfawrogwch, yn digwydd yn sydyn. Seilir y trefniadau yn y llythyr hwn ar y cyngor diweddaraf gan Lywodraethau'r DU a Chymru ac ar drafodaethau ar draws y Cyngor.

Dyma pam y mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi rhoi arweiniad clir ar [hunan-ynysu](#), [ynysu'r teulu](#) a [phellhau'n gymdeithasol](#).

Dyma pam hefyd y mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi gofyn i rieni/warcheidwaid gadw eu plant adref, lle'n bosib, ac wedi gofyn i ysgolion aros yn agored fel darpariaeth gofal i'r plant hynny y mae'n angenrheidiol iddynt fynychu.

Mae'n bwysig bod ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn parhau i fod yn fannau diogel i blant, ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu iechyd ein staff. Y lleiaf o blant sy'n teithio i'r ysgol, ac y lleiaf o blant sydd yn ein hysgolion, yr isaf y bydd y risg o'r firws hwn yn lledaenu ac yn heintio unigolion bregus ar draws yr Ynys.

Mae gofyn felly i ysgolion barhau i ddarparu gofal i nifer cyfyngedig o ddisgyblion – plant sy'n fregus a phlant sydd â rhieni sy'n hanfodol yn yr ymateb lleol i COVID-19 a phlant na ellir eu gofalu amdanynt yn ddiogel yn y cartref.

Mae'r rhieni sydd â'u gwaith yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19 yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn gofal iechyd a chymdeithasol, ac mewn sectorau allweddol eraill. Efallai y bydd yn bosib i nifer o rieni sy'n gweithio yn y sectorau hyn sicrhau y cedwir eu plant adref. Dylai unrhyw blentyn y gellir ei ofalu amdano'n ddiogel yn y cartref aros adref.

Yr egwyddorion allweddol i'w dilyn yw:

1. Dylai unrhyw blentyn y gellir ei gadw adref yn ddiogel aros adref.
2. Os oes ar blentyn angen cymorth arbenigol, os yw'n fregus neu os oes ganddo riant sy'n weithiwr hanfodol, gobeithiwn y bydd gofal yn eu hysgol leol ar gael iddynt.
3. Ni ddylai rhieni ddibynnu ar ofal plant gan unigolion sydd yn y grwpiau bregus yr adnabyddir (megis neiniau a theidiau).
4. Dylai rhieni wneud popeth y gallent i sicrhau bod plant yn cadw at yr un egwyddorion pellhau'n gymdeithasol ag oedolion.

Os yw riant yn gweithio mewn un o'r sectorau allweddol a restrir isod (neu a restrir gan Lywodraeth y DU [yma](#)), ac ni allent gadw eu plentyn adref yn ddiogel, bydd eu plant yn cael eu blaenoriaethu am ddarpariaeth gofal:

- **Gofal iechyd a chymdeithasol** e.e. doctoriaid, nyrsys, bydwagedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, a staff gofal iechyd a chymdeithasol rheng flaen eraill;
- **Addysg a gofal plant** e.e. meithrinfeydd, staff dysgu/cymorthyddion a gweithwyr cymdeithasol;
- **Y gwasanaethau golau glas** e.e. yr heddlu, tân, ambiwlans;
- **Gweithwyr blaenoriaethol mewn Llywodraeth Leol a Chenedlaethol** – (mae'r rhain yn cael eu hadnabod gan sefydliadau unigol);
- **Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill** e.e. cynhyrchu, prosesu, gwerthu a danfon bwyd;
- **Trafnidiaeth** e.e. cynnal dulliau teithio ffyrdd a rheilffyrdd a thrafnidiaeth llwytho.

Os yw eich plentyn angen mynediad at y ddarpariaeth gofal o 23.3.20 (dydd Llun i ddydd Gwener 8yb-5pm) o ganlyniad i riant yn cwrdd â'r meini prawf uchod, rhowch wybod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu cinio addas iddynt lle'n bosib.

Rydym yn ddiolchgar iawn i athrawon a gweithwyr mewn ysgolion ar draws yr Ynys am barhau i ddarparu gofal i blant y gweithwyr hanfodol lleol eraill. Mae hon yn rhan hanfodol o'n hymdrechion i oresgyn yr afiechyd hwn.

Dysgwyr "bregus"

Gall plant a ystyrir fel rhai bregus hefyd gael mynediad at y ddarpariaeth uchod. Os oes gennych Weithiwr Cymdeithasol dynodedig neu os ydych yn agored i Wasanaethau Plant ac Oedolion h.y. Tîm o Amgylch y Teulu, cewch eich ystyried eich bod mewn grŵp "bregus". Rydym yn erfyn arnoch felly i drafod presenoldeb ysgol gyda'ch gweithiwr/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

Dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim

Nid yw dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim o reidrwydd yn gymwys am y ddarpariaeth gofal yn awtomatig (cyfeiriwch at y diffiniad uchod ynglŷn â'r hawl).

Byddwn yn rhoi mesurau tymor byr ar waith i sicrhau y cyfarfyddir ag anghenion dysgwyr Prydau Ysgol am Ddim mewn ffordd hyblyg. O'r wythnos nesaf (wythnos yn dechrau ar y 23.3.20), darperir pecyn bwyd i'r holl blant/pobl ifanc sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ar yr Ynys. Yn y tymor byr, darperir hwn yn ysgol arferol y plentyn i'w gasglu yn ystod amser cinio arferol yr ysgol.

Caiff y trefniadau yn y llythyr hwn eu monitro a'u diwygio fel y bydd amgylchiadau'n datblygu, sydd, fel y gwerthfawrogwch, yn digwydd yn sydyn. Seilir yr wybodaeth ar y cyngor diweddaraf gan Lywodraethau'r DU a Chymru ac ar drafodaethau ar draws y Cyngor.

Rydym yn deall bod pawb wedi profi amseroedd o bryder arwyddocaol yn y dyddiau a'r wythnosau diwethaf. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith hwn yn llawn ac rwy'n ddiolchgar iawn i chi am eich amynedd wrth i faterion gael eu hegluro.

Yn yr un modd, dymunaf eto fynegi fy niolchgarwch i'r holl staff sydd wedi gweithio'n hynod o galed i gynnal pethau yn yr amseroedd caled hyn ac sydd wedi meddwl am a gweithredu dros eraill.

Cofion

Rhys

Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Director of Education, Skills and Young People